

POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2012

1. CYFLWYNIAD

- a. Mabwysiadodd Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan Gynllun iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 30 Awst 2007. Mae rhan 6.4 o'r cynllun yn mynnu fod y Cyngor yn derbyn adroddiad bynyddol ar y cynllun, bod y cyhoedd yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar yr adroddiad, a bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- b. Penodwyd Cynghorwyr Rob Phillips, Dorothy Williams, Chris Thomas, Selwyn Walters, Ann Morgan a Chlerc y Dref i Bwyllgor Iaith Gymraeg i gyflwyno'r adroddiad blynyddol.
- c. Nid yw'r adroddiad hwn yn sylwi ar bob pwynt gweithredu yn y cynllun, dim ond y rhai lle mae angen nodi llwyddiant neu argymell newid ar gyfer y dyfodol.
- d. Gwneir argymellion i wella'r cynllun iaith yn adran 7.

2. CYFRIFAD 2011

- a. Mae ffigyrau siaradwyr Cymraeg Llanbedr Pont Steffan yn 2011 bellach ar gael.
- b. Mae cwmp wedi bod ym mhob dosbarth.
- c. Mae'r cwmp mwyaf wedi bod yn y gallu i ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg

	2001		2011	
Poblogaeth	2,803		2,870	
Deall Cymraeg ar lafar	1,437	51.2%	1,410	49.1%
Siarad Cymraeg	1,449	51.6%	1,346	46.8%
Darllen Cymraeg	1,340	47.8%	1,230	42.8%
Ysgrifennu Cymraeg	1,239	44.2%	1,107	38.5%
Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	1,503	53.6%	1,412	49.1%

3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

- a. Mae'r cyngor wedi parhâu i hybu'r iaith Gymraeg yn y gymuned yn unol â'r cynllun gan gynnwys rhoi cymorth ariannol i Eisteddfod Rhys Thomas James (Pantfyfedwen) Llanbedr Pont Steffan, Cynllun Gwirfoddoli Urdd Gobaith Cymru, Adran yr Urdd, Llanbedr Pont Steffan ac Urdd Gobaith Cymru Ceredigion a'r Eisteddfod Genedlaethol.
- b. Wth lunio a mabwysiadu rheolau sefydlog newydd, gwnaethpwyd y Pwyllgor Iaith Gymraeg yn bwyllgor sefydlog y cyngor.
- c. Cyhoeddwyd 1,000 taflen ar gyfer ymwelwyr yn ddwyieithog mewn fformat tete-beche.
- d. Nid oedd newid i'r cynllun wedi cael ei ystyried yn ystod y flwyddyn.

4. YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG

- a. Derbyniodd y cyngor nifer o llythyron ac e-byst yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn diwethaf ac maent wedi cael eu hateb yn y Gymraeg. Mae'r ffaith fod y Cyngor yn croesawi gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi cael ei nodi ar bob llythyr sy'n mynd allan.
- b. Parhaodd y cyngor i ddarparu gwefan dwyieithog gyda chofnodion y cyngor a chynnwys parhaol ar gael yn Saesneg a'r Gymraeg.
- c. Darperwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer seremoni sefydlu'r Maer.

5. GWYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

- a. Mae papur pennod, gwefan ac e-bost y Cyngor yn ddwyieithog. Mae neges ar bapur pennawd ac e-byst y Cyngor yn nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- b. Mae'r rhaglen a gyhoeddir gan y Cyngor ar gyfer Sul y Cofio yn ddwyieithog.
- c. Mae'r Cyngor yn ystyried y Gymraeg wrth rhoi grantiau. Mae ffurflen i'r rhai sy'n gwneud cais am arian lenwi, er mwyn esbonio sut mae nhw'n adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal.

6. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

- a. Argymhellir dylid rhoi datganiad i'r *Cambrian News* a'r *Carmarthen Journal* a hysbyseb yn *Clonc* i hysbysebu'r adolygiad blynyddol a gofyn am sylwadau.
- b. Argymhellir gosod copïau ar wefan y Cyngor ac yn y llyfrgell. Bydd copïau ar gael oddi wrth y Clerc.

7. ARGYMHELLION

- a. Fod eisiau annog cynghorwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn cyfarfodydd arferol y cyngor, ac yn arbennig yn ystod seremoni sefydlu'r Maer lle mae cyfieithydd ar y pryd ar gael.
- b. Fod y cyngor yn cyd-weithio gyda phapur bro Clonc i gefnogi'r papur a hyrwyddo digwyddiadau iaith Gymraeg.
- c. Fod y cyngor yn cefnogi Ras yr Iaith pan ddaw'r ras trwy'r dref (14 Medi 2013)
- d. Fod y Pwyllgor Iaith Gymraeg yn ystyried ffyrdd eraill i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a defnydd o'r iaith yn y dref.

**Pwyllgor Iaith Gymraeg
3 Ebrill 2013**